Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

**00**

## Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

**CYP(3)-18-08**
**11 Rhagfyr 2008**

# Ymchwiliad i Gyllidebu ar gyfer Plant – Tymor y Gwanwyn 2009

# Cylch gorchwyl drafft a'r wybodaeth gefndir gychwynnol

**Cylch gorchwyl drafft**

1. Archwilio'r trefniadau presennol ar gyfer dyrannu a monitro gwariant cyhoeddus i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn genedlaethol ac yn lleol

2. Nodi gwariant cyffredinol Llywodraeth y Cynulliad ar blant a phobl ifanc

## 1. Beth yw cyllidebu ar gyfer plant?

- Mae cyllidebu ar gyfer plant yn ymwneud ag archwilio'r adnoddau y mae'r Llywodraeth yn eu dyrannu i bolisïau, rhaglenni a gwasanaethau sydd o fudd i blant, gan ystyried a ydynt yn adlewyrchu anghenion plant a phobl ifanc yn ddigonol.

- Bydd yn gwneud penderfyniadau cyllidebol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn fwy gweladwy a thryloyw ac yn gwneud y llywodraeth yn fwy atebol.

- Bydd yn helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i fod yn ymwybodol o effaith polisïau ar blant a phobl ifanc.

## 2. Pwysigrwydd cyllidebau i'r agenda hawliau plant

Mewn papur gan Achub y Plant, nodir "os yw polisïau'n bwysig, mae cyllidebau'n bwysicach fyth" oherwydd os nad yw datganiadau polisi'n weladwy yng nghyllideb y llywodraeth, nid ydynt yn debygol o ddigwydd. O ganlyniad, mae nodweddion a pherfformiad cyllideb y llywodraeth, yn ganolog ac yn lleol, "yn adlewyrchiad effeithiol o wir ymrwymiad y llywodraeth i ddiogelu hawliau'r plentyn." [1]

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dangos ei hymrwymiad i ddatblygu polisi sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig, a dylai hyn gynnwys penderfyniadau cyllidebol. [2]

[1] Achub y Plant (dim dyddiad) *Child Friendly Budgets in Ghana* http://www.savethechildren.org.uk/en/docs/child_friendly_budgets_in_ghana.pdf
[2] Sefton, T. (2003) *A Child's Portion: Public Spending on Children in Wales*, Wales: Achub y Plant

## 3. Tryloywder y gyllideb a'r gwariant ar blant a phobl ifanc

Yn 2002, argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y dylid cynnal dadansoddiad o gyllideb er mwyn cydymffurfio ag Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Dylai'r dadansoddiad ddangos faint gaiff ei wario ar blant, dylai nodi blaenoriaethau a sicrhau bod cymaint o adnoddau â phosibl yn cael eu dyrannu. Mewn adroddiad i Bwyllgor y Cenedlaethol Unedig, dywedodd y pedwar Comisiynydd Plant yn y DU nad yw'r adnoddau a ddyrennir yn ddibynnol ar anghenion a gaiff asesedig, nid ydynt yn dryloyw ac, yn aml, dim ond am gyfnod byr y cânt eu dyrannu. Yn ogystal â hyn, ni chaiff eu heffaith ar blant eu gwerthuso bob amser.[3]

Yn dilyn hyn, cyflwynodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig adroddiad am y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar 3 Hydref 2008, yn nodi eu bod yn falch o weld bod gwariant ar blant wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond:

> "Er hyn, mae'r Pwyllgor yn poeni nad yw'r gwariant wedi cynyddu digon i ddileu tlodi ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a bod diffyg dadansoddiad cyllidebol cyson ac asesiadau o effaith ar hawliau'r plentyn yn ei gwneud yn anodd gweld faint o wariant gaiff ei ddyrannu i blant ar draws partïon ei wladwriaethau ac a yw'r gwariant yn effeithiol o ran rhoi polisïau a deddfwriaeth sy'n effeithio ar blant ar waith."[4]

Galwyd ar Lywodraeth y Cynulliad i wneud cyllidebu'n fwy tryloyw.

- Galwodd y Pwyllgor ar Lywodraeth y Cynulliad i fod yn fwy tryloyw wrth graffu'n ddiweddar ar gyllideb 2009-10.

- Cyhoeddodd Achub y Plant adroddiad ym mis Ionawr 2006[5] yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i baratoi cyllideb ar gyfer plant, gan amcangyfrif y cyfrannau a'r symiau sy'n cael eu gwario ar blant yng Nghymru, yn unol ag Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Galwodd yr adroddiad hefyd ar Lywodraeth y Cynulliad i ddadansoddi'r gwariant sy'n cael ei gyfeirio'n benodol at blant tlawd yng Nghymru.

- Mae'r Pwyllgor wedi clywed am bryderon uniongyrchol gan gyrff anllywodraethol sy'n ymwneud â phlant. Dywedodd Catriona Williams o Blant mewn Angen:

> "O ran cyllidebu ar gyfer plant, o gofio bod y boblogaeth yn heneiddio, rydym yn poeni'n arw ar hyn o bryd am y modd y caiff plant eu blaenoriaethu mewn nifer o adrannau. Yn y Cynulliad, rydym wedi gweld problemau o ran gallu staff yn yr adran blant. Ym maes awdurdod lleol, does dim llawer o bobl sy'n frwd dros faterion plant mewn swyddi uwch bellach. Felly, rwy'n credu bod y ffordd y mae asiantaethau lleol yn gwario arian ar blant yn bwysig." [6]

## 3. Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud mewn perthynas â chyllidebu ar gyfer plant?

[3] Adroddiad Comisiynydd Plant y DU i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Mehefin 2008
[4] CRC/C/GBR/CO/4, Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn Committee, Sesiwn pedwar deg naw, 3 Hydref 2008 Casgliadau Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon
[5] Rhaglen Achub y Plant Cymru. Cywiro'r Cam: Realiti Hawliau Plant yng Nghymru (Ionawr 2006).
[6] Cofnod y Trafodion t5-6 15 Tachwedd 2007, Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Nid oedd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer 2009-10, y bu'r Pwyllgor yn craffu arno ym mis Hydref, yn nodi sut yr ystyriwyd cyllidebu ar gyfer plant.

Mae Llywodraeth y Cynulliad, fodd bynnag, wedi gwneud rhywfaint o waith mewn perthynas â chyllidebau ar gyfer plant. Cyflwynodd y Gweinidog dros Gyllideb a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus bapur i Is-bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cabinet ym mis Ebrill 2008 a nododd fod cyfanswm y gwariant a ddyrannwyd i blant wedi cynyddu o **£4.2 biliwn yn 2005-2006 i £4.4 biliwn yn 2006-2007**.[7]

Pan ofynnwyd i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn y pwyllgor am gyllidebau ar gyfer plant a'r gwariant cyffredinol ar blant, dywedodd:

> Cyn bod hir bydd papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld a fydd yn dangos fod **28 y cant o wariant Llywodraeth y Cynulliad yn gyffredinol yn 2006-07 wedi'i ddyrannu i blant,** yn ôl ein dadansoddiad. Mae hyn yn cynnwys yr holl gyllidebau y soniais amdanynt, ond yn enwedig fy nghyllideb i, sef cyfiawnder cymdeithasol, ac iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r gyllideb cyfiawnder cymdeithasol yn bwysig gan fod llawer o'r arian yn mynd i lywodraeth leol, a byddai'n dda pe bawn yn gallu creu fframwaith cyllidebu ar gyfer plant a fyddai'n annog ein partneriaid i'w fabwysiadu ar lefel awdurdodau lleol. [8]

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd wedi dadansoddi'r cyllidebau a wariwyd ar blant a phobl ifanc yn ystod 2005-06. Roedd yn dangos bod **tua 30%** (£4,380 miliwn) o gyllidebau Llywodraeth y Cynulliad ac awdurdodau lleol ar gyfer **2005-06** wedi'i wario ar blant.[9] **Nid yw'n glir a ellir cymharu'r ffigur o 30% ar gyfer 2005-06 â'r ffigur o 28% ar gyfer 2006-07.**

## 4. Gwaith arall yn gysylltiedig ag archwilio gwariant ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

Mae darn o waith a wnaed yng Nghymru o ddiddordeb arbennig. Comisiynodd Achub y Plant adolygiad o wariant cyhoeddus ar blant yng Nghymru ac fe'i cyhoeddwyd yn 2003. [10]

Nod yr adolygiad oedd nodi tueddiadau yng ngwariant y llywodraeth genedlaethol ar blant ac asesu i ba raddau roedd penderfyniadau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â phlant yn cael cefnogaeth ariannol i wella gwasanaethau ac i oresgyn y rhwystrau y mae'r plant sydd ar ymylon y gymdeithas yng Nghymru yn eu hwynebu. [11]

Dangosodd yr adolygiad y bu cynnydd mewn gwariant ar blant rhwng 1996-97 a 2000-01. Yn ogystal â chynnydd mewn gwariant ar addysg dros y cyfnod hwn, bu cynnydd sylweddol hefyd yng nghyfran y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol a wariwyd ar blant yng Nghymru.

---

[7] Is-bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Cabinet 28 Ebrilll 2008. Cofnodion yn unig ar gael. O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ni chafodd y papur ei hun ei gyhoeddi
[8] Cofnod y Trafodion t9 14 Hydref 2008, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
[9] Llywodraeth Cynulliad Cymru, Darpariaeth Ariannol i Blant yng Nghyllideb Llywodraeth y Cynulliad: Nodyn Technegol Chwefror 2007
[10] Sefton, T. (2003) *A Child's Portion: Public Spending on Children in Wales*, Wales: Achub y Plant
[11] Save the Children. Where's the money going? Monitoring government and donor budgets. (2004). [y sefyllfa ar 17 Gorffennaf 2008]

Fodd bynnag, cododd yr astudiaeth ragor o gwestiynau. Amlygodd amrywiaeth sylweddol yng ngwariant awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd ac nid oes modd priodoli'r amrywiaeth hon i ffactorau demograffig ac economaidd-gymdeithasol.

Amlygodd hefyd yr anawsterau'n gysylltiedig â chael hyd i wybodaeth am wariant cyhoeddus ar blant, yn enwedig yng nghyswllt gwasanaethau nad ydynt yn cael eu darparu'n benodol ar gyfer plant, ac mae'n anodd hefyd cael gwybodaeth am faint gaiff ei wario ar blant.

## 5. Meysydd y gallai'r Pwyllgor chwilio am atebion iddynt yn ystod eu hymchwiliad

- Faint sy'n cael ei wario, ar ba wasanaeth, a chan ba asiantaethau?
- Faint mae costau'n cynyddu neu'n gostwng? A ydym yn defnyddio'n hadnoddau'n effeithlon?
- Sut y mae blaenoriaethau gwario'n newid dros gyfnod?
- A yw plant yn cael eu cyfran deg o dwf refeniw ac, yn ystod cyfnodau o gyni economaidd, a ydynt yn cael mwy, neu lai, o ddiogelwch na rhannau eraill o'r gyllideb?
- Sut y mae ein gwariant ar blant a phobl ifanc yn cymharu â gwledydd eraill fesul pen?
- Pa fuddsoddiadau a wneir yn awr fydd yn creu'r budd mwyaf yn y dyfodol o ran lles plant ac a fydd yn lleihau'r gost o ddatrys eu problemau'n ddiweddarach yn eu bywydau?
- Effaith newidiadau demograffig